| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **9 Rhagfyr, 2014** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

Cefndir

1. Bydd y pwyllgor yn cofio am yr angen i'r Cyngor gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2011 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Yn dilyn trafodaethau blaenorol y pwyllgor hwn, gohebwyd â phob aelod sydd ddim ar y Cabinet i roi'r cynnig hwn iddynt. Bu i 20 o'r 65 aelod rheng-flaen dderbyn Cyfweliad Datblygu Personol yn ystod mis Medi a Hydref eleni, ac adroddir isod ar y meysydd hyfforddiant yn deillio o'r cyfweliadau.

3. Er gwybodaeth, bydd yr aelodau Cabinet hefyd yn gweithredu proses o asesu eu anghenion datblygu, ond bydd y broses a weithredir gan y Cabinet yn cynnwys elfen o reoli perfformiad yn ogystal.

Themâu hyfforddiant a gododd

4. Cododd rhai themâu cyffredinol o'r cyfweliadau, ac yn eu mysg:

- Gwybodaeth am pwy yw pwy / pwy i gysylltu â nhw
- Hyfforddiant gwella sgiliau iaith (Cymraeg)
- Datblygu hyder i siarad yn gyhoeddus
- Delio â sefyllfaoedd anodd
- Cadeirio cyfarfodydd yn fwy hyderus (yn arbennig yn wyneb gwe-ddarlledu)
- Twitter/ Facebook – sut i ddatblygu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- I-pads
- Paratoi ymgeiswyr sy'n sefyll fel aelodau etholedig am y tro cyntaf
- Mwy o hyfforddiant i aelodau newydd (ar ôl iddynt fod yn llwyddiannus)
- Gwe-ddarlledu

5. Noder fod rhai o'r themâu uchod eisoes yn cael eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant gyfredol, a bu'r cyfweliadau yn fodd o godi ymwybyddiaeth at rhai o'r cyrsiau cyfredol.

6.  Yn ogystal, bu’n gyfle i holi pa ffordd oedd y modd gorau o dderbyn hyfforddiant, gyda nifer yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi cyfle i dderbyn hyfforddiant mewn grwpiau bach gyda chyfle i holi Pennaeth neu’r hyfforddwr mewn awyrgylch mwy anffurfiol.  Nodwyd hefyd y byddai nifer yn gwerthfawrogi hyfforddiant ar-lein (gweler adroddiad pellach am hyn).